

CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

TÎM COMISIYNU (OEDOLION)

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Preswylfa:	Abbey Lodge
Darparwr:	Abbey Ambitions
Dyddiad yr ymweliad:	16 Awst 2019
Swyddog(ion) yr Ymweliad:	Diane Davies
Presennol:	Wendy Gloster (Rheolwr) Sam Gloster (Unigolyn Cyfrifol)

1 Cefndir

- 1.1 Mae Abbey Ambitions yn ddarparwr cofrestredig ym mwrdeistref Caerffili ac mae hefyd yn ddarparwr cofrestredig ar y Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol.
- 1.2 Mae Abbey Lodge yn gartref preswyl pedair ystafell wely wedi'i leoli ym mhentref Ynysddu yn Nyffryn Sirhywi, ger yr holl amwynderau lleol. Ar adeg yr ymweliad, roedd pedwar unigolyn yn byw yn yr eiddo, dau ohonynt yn cael ei ariannu gan CBSC a dau'n cael ei ariannu gan awdurdod lleol arall.
- 1.3 Yn ystod yr ymweliad, bu'r swyddog monitro yn edrych ar nifer o ffeiliau a dogfennau, yn trafod prosesau a gweithdrefnau, bu'n cyfarfod â thri thenant, aelod staff, y Rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.
- 1.4 Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, bydd y darparwr yn cael camau cywiro a chamau datblygu i'w cymryd. Camau cywiro yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (yn unol â'r ddeddfwriaeth etc), a chamau datblygu yw'r rhai y bernir eu bod yn arferion da.

2 Argymhellion Blaenorol

2.1 Camau Cywiro

Mae angen ail-gyflwyno cyfarfodydd staff **Ar unwaith a pharhaus**

**Wedi'i
gwblhau**

Llofnod aelodau staff i fod yn amlwg ar daflenni llofnod pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu **Ar unwaith a pharhaus**

**Wedi'i
gwblhau**

2.2 Camau Datblygu

Ystyried cyflwyno cofnod ysgrifenedig i gefnogi'r broses drosglwyddo llafar sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Wedi'i gwblhau

Ystyried datblygu dull mwy disgrifiadol o gofnodi gweithgareddau dyddiol unigolion er mwyn adlewyrchu eu hymddygiad.

Heb ei gwblhau hyd yn hyn

3 **Canfyddiadau o'r Ymweliad**

3.1 Ffeiliau a Dogfennaeth

Mae holl ffeiliau personol y preswylwyr a'r staff yn cael eu storio'n ddiogel yn swyddfa'r rheolwr gyda choffor i gynorthwyo gyda rheolaeth ariannol a chabinet gyda chlo er mwyn storio meddyginiaeth.

Mae gan y staff fynediad i'r swyddfa a ffeiliau a dogfennau'r preswylwyr megis cynlluniau, asesiadau risg, siartiau ayb. Mae gan y staff hefyd fynediad at allweddi er mwyn cael gafael ar feddyginiaeth/taflenni MAR ayb a gwelwyd hynny yn ystod yr ymweliad.

Roedd cofnodion meddyginiaeth yn cynnwys llofnod aelodau staff yn ôl y gofynion ac roedd archwiliadau meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn fisol, fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau, a thrafodwyd hynny gyda'r rheolwr.

Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ar gael i'w gweld ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu ym mis Mawrth 2018. Y rheolwr i sicrhau bod yr holl adolygiadau'n cael eu cynnal yn brydlon.

Roedd pob ffeil a archwiliwyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl a phersonol am y preswylwyr ynghyd â gwybodaeth sylfaenol am bob cyswllt e.e. teuluol a phroffesiynol.

Roedd y proffil personol yn cynnwys llun cyfredol o'r person a oedd yn derbyn cefnogaeth a'r hyn yr oedden nhw'n hoff o'i wneud e.e. mynychu'r ganolfan ddydd mynd i'r siop trin gwallt, mynd i siopau lleol, ymweld â ffrindiau ayb.

Roedd y cynllun gwasanaeth yn amlinellu'r gofynion unigol yn ymwneud ag agweddau megis hylendid personol, gofal deintyddol, gor-bryder, y gymuned, cyfathrebu ayb. Roedd pob adran yn darparu arweiniad ar yr hyn sy'n ofynnol a sut y caiff ei ddarparu ym mhob agwedd o ofal a chefnogaeth ac yn cynnwys gwybodaeth am y tasgau sy'n cael eu cyflawni'n annibynnol.

Edrychwyd ar gynllun canlyniadau a oedd yn dangos bod y darparwr yn cefnogi'r unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yn ystod yr ymweliad, roedd un preswlydd yn cael cefnogaeth i siopa ar lein, a nodwyd mai dyna un o ganlyniadau dymunol y preswlydd.

Roedd yr asesiadau risg a oedd yn eu lle wedi'u dyddio rhwng 2016 a 2019. Roedd yr asesiadau'n fanwl ac roedd hi'n amlwg bod mesurau ar waith i reoli'r risg a nodwyd ac i ddarparu cefnogaeth briodol i breswylwyr wrth ymgymryd â gweithgareddau penodol megis mynd allan i'r gymuned, dianc, ymddygiadau, perthnasau, cyfathrebu ayb.

Mae dogfennaeth yn cael ei adolygu'n flynyddol ar hyn o bryd ac roedd nifer o ddiweddariadau wedi eu hysgrifennu â llaw yn 2017 yn dal i fod ar asesiadau a chynlluniau drwy'r ffeil. Er bod hyn yn dangos bod newidiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen, cynghorir y dylai pob diweddariad gael ei ymgorffori yng nghorff y ddogfen yn brydlon, ynghyd â thaflen arwyddo.

Cedwir cofnodion dyddiol ar ffurf rhestr wirio ac er eu bod yn darparu gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau a gwblhawyd, roedd y cofnodion yn fyr. Y rheolwr i ystyried cynnwys blwch sylwadau i ymhelaethu ar sut aeth y diwrnod a graddfa ymgysylltiad y preswylwyr ayb.

3.2 Ymagwedd tuag at Ofal

Mae gofynion ac anghenion pawb yn wahanol, ac fe arsylwodd y swyddog monitro fod y staff yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n dda gyda'r preswylwyr drwy gydol yr ymweliad.

Roedd ymagwedd lle mae'r person yn ganolbwynt i'w weld yn amlwg, gyda dewisiadau a dymuniadau'r preswylwyr yn ganolog i bob penderfyniad a oedd yn cael ei wneud.

Mae gan bob preswilydd gynllun wythnosol ac maen nhw'n cael cefnogaeth i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau dewisol megis mynd i'r sinema, mynd i'r dafarn am ginio, siopa, cerdded, 'pedal power' ayb

Edrychwyd ar siartiau canlyniad a oedd yn dangos bod unigolion yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu nodau. Roedd hi'n galonogol gweld un preswilydd yn derbyn cefnogaeth i gyflawni un o'r canlyniadau a nodwyd, ac yn cael cefnogaeth i siopa ar lein.

Mae asesiadau risg manwl yn eu lle i sicrhau bod preswylwyr yn derbyn cefnogaeth briodol er mwyn rheoli risg wrth gyflawni gweithgareddau penodol a mynd allan i'r gymuned e.e. dianc, ymddygiadau, perthnasau, cyfathrebu ayb.

Gwelwyd tystiolaeth fod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ar gyfer staff a phreswylwyr ac mae hyn yn rhoi cyfle i unigolion ychwanegu eitemau o'u dewis at yr agenda er mwyn iddynt allu rhannu eu barn a/neu godi unrhyw bryderon yn ymwneud â materion cyffredinol a busnes fel ei gilydd.

Bydd y darparwr yn annog ac yn cefnogi unigolion i gynnal perthynas gyda theulu, ffrindiau, cyd-breswylwyr a grwpiau cyfryngau cymdeithasol yn ôl eu dymuniad.

Roedd y rheolwr a'r staff yn darparu cefnogaeth ychwanegol gyda chyfathrebu trwy gydol ein hamser gyda'r preswylwyr a gwelwyd cyfathrebu dwy ffordd effeithiol rhwng staff a phreswylwyr yn ogystal ag Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Mae gan y darparwr nifer o brosesau, dogfennau a systemau ar waith a ddefnyddir i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a bod unigolion yn derbyn cefnogaeth briodol ym mhob agwedd o'u gofal

3.3 Cwynion a Chanmoliaeth

Mae gan y darparwr weithdrefn gwyno sy'n cael ei dilyn pan fo cwyn yn cael ei wneud a bydd pob cwyn yn cael ei gofnodi ac yn derbyn ymateb o fewn amserlenni a nodir. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr nad oedd cwynion wedi cael eu derbyn ers nifer o flynyddoedd.

Dyweddod y rheolwr nad oedd Abbey Lodge ar hyn o bryd yn cofnodi unrhyw ganmoliaeth a dderbynnir.

3.4 Staff

Archwiliwyd dwy ffeil staff ac roeddent drefnus gyda phob dogfennaeth yn ymwneud â'r broses recriwtio yn amlwg ar bob ffeil, gan gynnwys tystysgrif geni, dogfen adnabod gyda llun, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyfredol.

Roedd staff wedi cwblhau cyfnod cyflwyno mewnol dros gyfnod prawf manwl gan gynnwys cwestiynau, hyfforddiant, arsylwadau a chefnogaeth i sicrhau bod aelodau staff newydd yn cael eu hyfforddi'n llawn ac yn hyderus wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r rheolwr ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan.

Dyweddod y rheolwr eu bod yn defnyddio pob math o hyfforddiant sydd ar gael e.e. e-ddysgu, dysgu yn y dosbarth, allanol a mewnol. Roedd rhai cyrsiau hyfforddiant anstatudol yn cael eu cwblhau i ymateb i ofynion pob preswlydd. Cafodd cofnod hyfforddiant ei gydnabod, ynghyd â thystysgrifau hyfforddiant yn dangos tystiolaeth o bresenoldeb staff hyd yma.

Bydd y rheolwr yn mynychu hyfforddiant i sicrhau ei fod yn 'addas i'r diben' a bydd staff yn cwblhau taflen adborth ar ran y cwmni. Mae'r ymarfer yn cael ei arsylwi ar bob cyfle posibl.

Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys cytundeb goruchwyliaeth gyda llofnod y staff gyda thystiolaeth o'r oruchwyliaeth a gwblhawyd bob deufis a'r meysydd datblygu, gofynion hyfforddiant a'r nodau a'r amcanion unigol a drafodwyd. Gwelwyd tystiolaeth o arfarniadau, er bod yr arfarniadau a archwiliwyd yn hwyr.

3.5 Iechyd a Diogelwch Tân

Roedd y ffeil yn cynnwys nifer o ddogfennau'n nodi bod gwiriadau blynyddol yn gyfredol, megis gwiriadau'r larwm tân, goleuadau argyfwng ayb. ac roedd tystiolaeth fod rhestr wirio wythnosol yn cael ei chwblhau gan y staff sydd ar ddyletswydd ac yn cael ei llofnodi.

Archwiliwyd cynllun ymadael personol mewn argyfwng (PEEP) ac roedd hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion yn ystod y dydd a'r nos, gydag asesiad risg i gyd-fynd ag ef.

3.6 Awyrgylch y Cartref

Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd pob ardal a archwiliwyd yn lân ac yn daclus, y tu mewn a thu allan i'r adeilad.

Estynnodd un o'r preswylwyr wahoddiad i'r swyddog monitro weld ei ystafell wely, ac roedd tystiolaeth fod yr ystafell wedi'i phersonoli gyda phethau'n hongian ar y wal, lliwiau llachar ac eitemau dewisol yn cael eu harddangos.

Mae'r cartref yn cynnwys ystafell gyda chawod ac ystafell ymolchi. Mae pob tap dŵr poeth yn cael ei reoli gan thermostat ac mae'r rhain yn cael eu gwirio'n wythnosol. Mae pob rheiddiadur yn cael ei reoli'n unigol ac yn cael ei orchuddio am resymau diogelwch.

Ceir patio braf yng nghefn yr eiddo gyda basgedi a photiau blodau, pwll pysgod bychan a sied sy'n cynnwys offer trydanol ar gyfer golchi dillad.

3.7 Staff

Dyweddodd yr aelod staff ei bod wedi cael ei chyflogi gan Abbey Ambitions er sawl blwyddyn a'i bod yn hapus yn ei swydd bresennol. Dywedodd yr aelod staff fod y rheolwr bob amser ar gael ac yn gefnogol i staff a phreswylwyr a'i bod yn teimlo'n gyfforddus i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddi. Mae'r aelod staff yn gwbl ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd mewn lle i gefnogi gofynion y preswylwyr a'r cartref.

3.8 Sicrhau Ansawdd

Mae Abbey Lodge yn cynnal archwiliad sicrhau ansawdd bob blwyddyn. Mae holiaduron yn cael eu hanfon at randdeiliaid i dderbyn adborth ar berfformiad staff, darpariaeth gwasanaeth, cyfleusterau a bywyd bob dydd i unigolion.

Archwiliwyd ar adroddiad Sicrhau Ansawdd 2019, ac roedd yr ymateb yn bositif iawn ar y cyfan, gyda gweithwyr proffesiynol yn nodi '*Mae gennym ni berthynas weithio dda iawn ac rydym yn cyfathrebu'n dda iawn gyda phawb yn Abbey Lodge*'

Yn ogystal, mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi creu templed i fonitro sut mae'r cartref yn rhedeg yn gyffredinol o ddydd i ddydd a'r adroddiadau chwarterol gofynnol.

4 **Camau Cywiro / Datblygu**

4.1 Camau Cywiro

Cynlluniau Personol i'w hadolygu bob 3 mis neu'n gynt. **Ar unwaith ac yn barhaus** Rheoliad 16

Archwiliadau meddyginiaeth misol yn digwydd yn brydlon ac yn gyson er mwyn sicrhau systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau. **Ar unwaith ac yn barhaus** Rheoliad 58

Arfarniadau i'w cynnal yn flynyddol. **Ar unwaith ac yn barhaus** Rheoliad 36

4.2 Camau Datblygu

Ystyried cyflwyno mynegai a rhanwyr mewn ffeiliau personol er mwyn gallu cyrraedd gwybodaeth ofynnol yn rhwydd.

Archifo gwybodaeth hanesyddol er mwyn sicrhau bod pob dogfen a gedwir ar ffeil yn gyffredol.

Cynnwys unrhyw addasiadau wedi'u hysgrifennu â llaw a gedwir ar ffeil personol i gorff y ddogfennaeth yn brydlon.

Datblygu dull disgrifiadol ar gyfer cofnodi gweithgareddau dyddiol unigolion i gynrychioli eu hymddygiad ar y pryd.

5 **Casgliad**

Roedd y cartref yn groesawus gydag awyrgylch cynnes, tawel a chyfeillgar. Gwelwyd cyfathrebu rhwng preswylwyr a staff, ynghyd â dealltwriaeth dda a chyfathrebu agored. Ar y cyfan, roedd yr ymweliad yn bositif a gwelwyd arferion da.

D.S. Trefnir bod yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copiâu caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os byddant yn gofyn am gael eu gweld.